Healthcare Inspectorate Wales
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

SICRHAU
GWELLIANT
TRWY
AROLYGU ANNIBYNNOL
A GWRTHRYCHOL

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd

protecting the public through statutory supervision of midwives

# Bwrdd Iechyd Lleol Addysgu Powys

# Archwiliad Blynyddol yr Awdurdod Goruchwylio Leol

2012-2013

Awst 2013

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu a Chyfleusterau**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Tŷ Bevan**
**Parc Busnes Caerffili**
**Heol y Fan**
**CAERFFILI**
**CF83 3ED**


Neu trwy'r canlynol


| | |
|---|---|
| **Ffôn**: | 029 20 928850 |
| **Ebost**: | hiw@wales.gsi.gov.uk |
| **Ffacs:** | 029 20 928877 |
| **Gwefan**: | www.hiw.org.uk |



ISBN digidol 978 1 4734 0091 7


© Hawlfraint y Goron 2013


WG19485

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Crynodeb Gweithredol | 3 |
| 2 | Cyflwyniad | 4 |
| 3 | Canfyddiadau'r Archwiliad | 6 |
| 4 | Tystiolaeth o safonau Hunanasesu gyda Sylwadau'r AGLl ac Argymhellion ar gyfer Datblygiad | 9 |
| 5 | Casgliad | 36 |
| | Atodiadau | 37 |

# 1 Crynodeb Gweithredol

**1.1** Sefydliadau o fewn ardaloedd daearyddol yw Awdurdodau Goruchwylio Lleol (AGLI), ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod bydwragedd yn cael eu goruchwylio'n statudol yn unol â'r safonau a osodir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth dan erthygl 43 Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth 2001. Mae manylion y Gorchymyn hwn i'w cael yn rheolau a safonau Bydwragedd y Cyngor. Yng Nghymru, dirprwywyd swyddogaeth yr AGLI i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gan Weinidogion Cymru. Mae'r AGLI yng Nghymru wedi penodi dau Swyddog Bydwreigiaeth i gyflawni swyddogaeth yr AGLI ar ei rhan.

**1.2** Diben yr archwiliad blynyddol yw asesu i ba raddau y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni'r swyddogaeth oruchwylio ym mhob Bwrdd Iechyd Lleol, o'i gymharu â safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a gwneud awgrymiadau ar gyfer datblygiad pellach a gwelliant parhaus.

### 1.3 Crynodeb

Ym mlwyddyn yr adroddiad hwn, cafodd y broses a luniwyd yn 2011-2012 ar gyfer archwilio gwasanaethau mamolaeth ei diwygio gan yr AGLI i fod yn fwy cymesur, gan ganolbwyntio ar naw safon benodol ar draws Cymru lle y dangoswyd yn flaenorol fod angen datblygiad parhaus. Roedd yr archwiliad presennol hwn yn dangos bod 11% (1) o'r meini prawf ar gyfer y naw safon a gafodd eu mesur yn cael eu bodloni â thystiolaeth gref, ac ni awgrymir unrhyw gamau datblygu. Bodlonwyd 89% (8) arall â thystiolaeth gref neu gref i gymedrol, a gwneir argymhellion ar gyfer datblygiad pellach. Bodlonwyd yr 11% (1) a oedd yn weddill â thystiolaeth gymedrol neu wan, ac argymhellir camau datblygu er mwyn cryfhau'r swyddogaeth oruchwylio. Bodlonwyd yr un safon nad oedd wedi ei bodloni yn 2011/12 â thystiolaeth wan, a bydd hon yn parhau i gael ei hadolygu.

Gwneir argymhellion mewn meysydd lle mae'r offeryn archwilio yn nodi bod angen datblygiad i gynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddatblygu safonau lle'r oedd tystiolaeth yn llai cadarn a/neu lle byddent yn elwa o ddatblygiad parhaus yn unol ag amcanion y broses archwilio barhaus. Mae'r AGLI wedi bod yn glir o'r cychwyn cyntaf nad bwriad y prosesau archwilio diwygiedig yw bod yn feirniadol; eu nod yw cefnogi datblygiad parhaus drwy ddenu'r adnoddau a'r hyfforddiant priodol yn ôl y gofyn.

Cyhoeddir yr adroddiad hwn ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn **www.hiw.org.uk**.

## 2 Cyflwyniad

**2.1** Mae disgwyl i Oruchwylwyr Bydwragedd weithio'n unol â chyfres gyffredin o safonau i alluogi bydwragedd i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithlon gan wella diogelwch y cyhoedd. Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Goruchwylio Lleol (AGLl) gyflwyno adroddiad blynyddol ysgrifenedig i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'w hysbysu am weithgareddau, materion allweddol, arfer da a thueddiadau sy'n effeithio ar wasanaethau mamolaeth yn ei ardal. I roi sail i'r broses hon, bydd Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl yn cynnal archwiliadau o wasanaethau bydwreigiaeth yn ei ardal.

**2.2** Mae proses archwilio'r AGLl yn defnyddio dull hunanadolygu/adolygu cymheiriaid ar gyfer holl safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, a dilynir hyn gan ymweliad archwilio gan dîm yr AGLl i gadarnhau'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer y naw safon blaenoriaeth. Roedd y tîm adolygu'n cynnwys Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl a enwyd, Adolygwr Lleyg yr AGLl, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd cyfagos a Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant. Mae hyn yn eu galluogi i archwilio fel tîm, yn rhoi cyfle i adolygu cymheiriaid a meincnodi ac yn cefnogi'r broses o rannu arfer da. Cafodd adolygwyr lleyg yr AGLl eu cynnwys yn y tîm am y tro cyntaf eleni, gan sicrhau bod safbwynt defnyddwyr yn cael ei geisio drwy gydol y broses archwilio yn lle bod yr adolygwyr lleyg yn cynnal archwiliad digysylltiad ar wahân, fel yn y blynyddoedd blaenorol; cafwyd croeso i hyn ar bob lefel.

**2.3** Cynhaliwyd yr ymweliad archwilio ar gyfer Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 02/03/2012 fel a drefnwyd. Gwahoddwyd gweithwyr allweddol i fod yn bresennol, yn ogystal â thîm goruchwylio'r Bwrdd Iechyd (**Atodiad A - Rhaglen**). Roedd yn anffodus nad oedd cynrychiolwyr o'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth yn gallu bod yn bresennol nac yn gallu bod ar gael i gymryd rhan yn y drafodaeth.

**2.4** Cynhaliwyd yr archwiliad gan Julie Richards, Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl, a chafodd ei chynorthwyo gan Jackie Foster, Adolygwr Lleyg yr AGLl, Karen Hone, Goruchwyliwr Bydwragedd profiadol o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, a Jo Price, Goruchwyliwr Bydwragedd dan hyfforddiant o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

**2.5** Cychwynnodd yr ymweliad archwilio â chyflwyniad byr gan Julie Richards ynglŷn â diben yr archwiliad a chynlluniau'r AGLl ar gyfer y ffordd ymlaen i gysylltu argymhellion yr archwiliad â chynllun gweithredu yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd Lleol. Dilynwyd y sesiwn hon gan gyflwyniad PowerPoint gan y Goruchwylwyr Bydwragedd a oedd yn rhoi golwg cyffredinol ar Fwrdd Iechyd Addysgu Powys a gweithgareddau goruchwylio, yn ogystal â llwyddiannau'r Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arfer da. Yn

ogystal, roedd yr ymweliad archwilio yn cynnig y cyfle i gyfarfod a rhannu gwybodaeth am oruchwyliaeth â’r Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a myfyrwyr bydwreigiaeth. Trefnodd Adolygwr Lleyg yr AGLl i gyfarfod â defnyddwyr gwasanaeth mewn clinig gwrando'r AGLl a gynhelir ym mis Ebrill 2013 (**Atodiad B - Y Rhai a Gymerodd Ran**).

## 3 Canfyddiadau'r Archwiliad

3.1 Diben archwiliad blynyddol yr AGLI yw adolygu'r dystiolaeth sy'n dangos bod Safonau Goruchwylio'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cael eu bodloni; sicrhau bod systemau a phrosesau perthnasol ar waith i wella diogelwch mamau a babanod; sicrhau bod arferion bydwreigiaeth wedi'u hategu gan bolisïau a gweithdrefnau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a bod ymarferwyr yn cael cefnogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnal cymhwysedd clinigol; canfod bod bydwragedd yn cyfathrebu'n effeithiol o fewn y tîm amlddisgyblaethol ac adolygu effaith goruchwylio ar arferion bydwreigiaeth. Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI yn llunio asesiad ar sail y wybodaeth a ddarperir gan Oruchwylwyr Bydwragedd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a thrwy gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Nyrsio, y Pennaeth Ansawdd a Diogelwch, y Rheolwr Risg Corfforaethol, Goruchwylwyr Bydwragedd, bydwragedd a defnyddwyr gwasanaeth yn ystod yr ymweliad archwilio.

3.2 Trwy gydol y flwyddyn, mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI wedi gweld y gwaith caled a wnaed gan oruchwylwyr o ran cyfrannu at ddiogelwch y gwasanaethau trwy alluogi'r bydwragedd i gynorthwyo menywod. Ers yr archwiliad yn 2011-12, mae goruchwylwyr Powys wedi cymryd camau da o ran cryfhau'r rhyng-gysylltiad â systemau llywodraethu yn y Bwrdd Iechyd. Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i fod yn dîm cydlynol ar draws y Bwrdd Iechyd, ac maent yn gweithio'n dda gyda'r rheolwyr gan ddangos cydbwysedd iach rhwng gweithio ar y cyd a chyflwyno her broffesiynol briodol. Mae rhai o'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi elwa ar y cyfle i wneud mwy o ddefnydd o'u sgiliau a'u harbenigedd trwy gynnal ymchwiliad allanol, ac mae ganddynt fwy o fydwragedd i'w goruchwylio mewn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth cyfagos. Mae goruchwylwyr Powys yn dîm bychan, ac maent yn cydnabod yr angen i barhau â'r cyswllt â'r timau Goruchwylwyr Bydwragedd cyfagos ar gyfer eu datblygiad parhaus ac er mwyn cael profiad o oruchwyliaeth mewn lleoedd eraill; a'r angen i sicrhau eu bod yn cysylltu â'r cynlluniau ad-drefnu presennol sy'n cael eu rhoi ar waith gan lawer o'r Ysbytai Cyffredinol Dosbarth cyswllt ar gyfer Powys.

3.3 **Roedd elfennau ac enghreifftiau cadarnhaol o arfer da a nodwyd yn ystod yr adolygiad yn cynnwys:**

- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn rhan o'r broses o gynllunio'r gwaith ad-drefnu ac o ymgynghori yn ei gylch er mwyn sicrhau gwasanaethau diogel ar gyfer menywod Powys ac ystyried unrhyw effaith ar ofal bydwreigiaeth lleol.
- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn cydnabod gwerth mynychu cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd cyfagos er mwyn cynnal cysylltiadau cyfathrebu, cael cymorth gan gymheiriaid a thrafod materion ymarfer bydwreigiaeth â Goruchwylwyr Bydwragedd cyswllt yn yr ysbytai cyffredinol dosbarth sy'n darparu gwasanaethau

i'w hardal. Mae'n nodedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn cael eu gwahodd i nifer cynyddol o adolygiadau digwyddiadau mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth pan fo'r achos yn gysylltiedig â gwasanaethau bydwreigiaeth Powys.

- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn adnabyddus yn fframwaith llywodraethu ehangach y Bwrdd Iechyd. Mae'r adran ansawdd a diogelwch yn ystyried bod y fframwaith yn esiampl y dylai gwasanaethau eraill yn y Bwrdd Iechyd ei fabwysiadu.

- Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys wedi ymwreiddio fframwaith cadarn ar gyfer archwilio offer bydwragedd cymunedol yn ystod y diwrnodau diweddaru. Mae'n cynnwys mecanwaith i'r Goruchwyliwr Bydwragedd penodedig gymryd camau dilynol ar unrhyw faterion penodol a nodwyd ar gyfer y rhai hynny y maent yn eu goruchwylio.

### 3.4 Heriau

- Fel y rhan fwyaf o'r timau Goruchwylwyr Bydwragedd, ceir heriau o ran cadw cydbwysedd rhwng anghenion swydd barhaol ac anghenion bod yn Oruchwyliwr Bydwragedd. Mae hyn yn golygu bod adolygiadau blynyddol, adolygiadau o ddigwyddiadau a gwersi i'w dysgu yn aml yn cael eu gohirio heb fod angen. Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn teimlo eu bod wedi eu cyfyngu i ddarparu gweithgareddau craidd Goruchwylwyr Bydwragedd yn unig ar hyn o bryd, ac maent o'r farn ei bod yn her cyflawni busnes ehangach goruchwylio.
- Ar hyn o bryd, nid oes yr un tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru sy'n cydymffurfio'n llawn â'r broses Adolygiad Blynyddol o Oruchwyliaeth sy'n sicrhau bod yr holl fydwragedd wedi cael adolygiad blynyddol yn ystod y 12 mis blaenorol. Er ei fod yn dîm bychan o Oruchwylwyr Bydwragedd a bydwragedd, mae canran Goruchwylwyr Bydwragedd Powys sy'n cydymffurfio â'r gofynion o ran adolygiad blynyddol wedi bod o dan 90% yn gyson yn y cerdyn sgorio monitro chwarterol.
- Mae'r hinsawdd ariannol anodd a'r gwahanol bwysau sy'n cystadlu â'i gilydd yn golygu ei bod yn anodd cynorthwyo'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd i ddangos eu bod yn cael profiad digonol o bob agwedd ar y swyddogaeth, a gwelir tystiolaeth o hynny yn yr offeryn cymhwysedd goruchwyliaeth blynyddol a gyflwynwyd i'r AGLI.

### 3.5 Argymhellion ar gyfer bodloni safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys wedi rhoi dull ar waith ar gyfer casglu tystiolaeth sy'n adlewyrchu sylwadau a phrofiad bydwragedd ynglŷn â goruchwylio bydwragedd ym Mhowys. Mae'r sylwadau ar oruchwyliaeth yn gysyniad cymharol newydd, ac mae angen ei hyrwyddo ymhlith yr holl fydwragedd ym Mhowys er mwyn eu hannog i roi eu sylwadau a gwneud awgrymiadau ar gyfer parhau i ddatblygu goruchwyliaeth. Mae angen i Oruchwylwyr Powys ystyried sut y byddant yn ymateb i'r

sylwadau a'r profiadau, ac efallai y bydd yn rhaid iddynt ystyried amrywiaeth o ddulliau o dderbyn adborth os yw cyfraddau ymateb yn parhau i fod yn wael.

### 3.6 Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus

Mae argymhellion i gynorthwyo tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Powys i gyflwyno gwelliannau i'r swyddogaeth oruchwylio wedi eu nodi dan bob un o safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a oedd yn destun archwiliad yn yr offeryn archwilio sy'n dilyn. Cyflwynodd y Goruchwylwyr Bydwragedd eu tystiolaeth yn ystod ymweliad archwilio'r AGLI, ac roedd yn ofynnol iddynt nodi unrhyw gamau gwella yr oedd eu hangen, yn eu barn nhw, i gryfhau eu tystiolaeth yn unol â'r mesurau a ddisgrifiwyd gan yr AGLI i ddangos tystiolaeth gref, gymedrol neu wan. Diben y broses ddiwygiedig hon oedd galluogi'r Goruchwylwyr Bydwragedd i nodi eu camau gwella eu hunain ar gyfer y flwyddyn nesaf, a sicrhau eu bod yn teimlo cyfrifoldeb dros ddatblygiadau yn y dyfodol. Roedd y Goruchwylwyr Bydwragedd wedi llunio cynllun gweithredol da ar gyfer goruchwyliaeth a oedd yn cynnwys camau gweithredu sydd wedi cyfrannu at beth gwelliant parhaus. Mae'r cynllun gweithredol yn sail dda ar gyfer y flwyddyn nesaf, a dylai gynnwys y camau datblygu a nodwyd yn sgil ymweliad archwilio'r AGLI.

**3.7** Mae'r manylion sy'n sail i'r argymhellion wedi eu hamlinellu yn adran 4 dan sylwadau ac argymhellion yr AGLI. Mae gan Oruchwylwyr Bydwragedd Powys wyth o safonau lle y gallai peth ddatblygiad fod o fudd. Bydd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn gweithio gyda'u timau i gynorthwyo i baratoi cynllun gweithredol ar gyfer y flwyddyn nesaf a fydd yn mynd i'r afael â datblygiad y safonau hyn.

## 4 Offeryn Hunanasesu Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ac Adborth Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI am y Camau Gweithredu a Argymhellir

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V1 | **Ceisir barn a phrofiadau bydwragedd o oruchwyliaeth statudol.** | Gofynnwyd am sylwadau bydwragedd Powys ynglŷn â goruchwyliaeth bydwreigiaeth trwy ddefnyddio "Sylwadau ynglŷn â'n Goruchwyliaeth. Ceir dewis o gyflwyno Cerdyn Coch, Melyn neu Wyrdd a anfonir yn ddienw at weinyddwr y Goruchwyliwr Bydwragedd ar gyfer y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V1 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – Heb ei fodloni, a gwnaed argymhellion ar gyfer bodloni safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.** | **Archwiliad o fwy nag 20% o safbwyntiau bydwragedd**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol**<br><br>**Mae 95 i 100% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn gyffredinol** | **Safbwyntiau o leiaf 10% o fydwragedd**<br><br>**Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol**<br><br>**Mae 90 – 95% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad sy'n dangos yr ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth cadarnhaol yn bennaf** | **0 archwiliad**<br><br>**Mae llai na 10 yn dweud bod goruchwyliaeth yn weladwy ac yn gadarnhaol, neu'n dweud ei bod yn negyddol**<br><br>**Mae llai na 90% o Oruchwylwyr Bydwragedd wedi cael 10 adolygiad a/neu ystyrir bod goruchwyliaeth yn rhywbeth negyddol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Cyflwynwyd y cardiau Sylwadau ynglŷn â Goruchwyliaeth ym mis Rhagfyr 2012. Mae'n gysyniad arloesol i annog bydwragedd i ddarparu sylwadau cadarnhaol ar faes o oruchwyliaeth a oedd yn llwyddiant ar gerdyn gwyrdd. Diben y cerdyn melyn yw casglu sylwadau a phrofiadau y mae angen rhoi peth ystyriaeth iddynt neu ddatblygu mwy arnynt. Dylai cerdyn coch alluogi bydwraig i godi ei phryder ynglŷn â maes o oruchwyliaeth y mae angen rhoi ystyriaeth lawn iddo / cymryd camau datblygu ar ei gyfer.

Cydnabuwyd mai ond yn ddiweddar yr oedd y cysyniad wedi ei greu a'i roi ar waith, ond nid oedd unrhyw gardiau wedi eu dychwelyd ar adeg yr archwiliad. Mae arweiniad ar gael i'r bydwragedd yn egluro'r cysyniad, ond roedd y tîm adolygu yn teimlo y byddai'r bydwragedd y cyfarfuont â nhw yn ystod yr ymweliad archwilio yn elwa ar fwy o arweiniad i'w hannog i ddefnyddio'r cardiau.

Amlygodd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd eu bod wedi defnyddio elfen o'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd i adlewyrchu profiadau bydwragedd a oedd yn adlewyrchu goruchwyliaeth fel rhywbeth cadarnhaol. Awgrymodd y tîm adolygu y dylid darparu'r dystiolaeth hon ar gyfer archwiliadau yn y dyfodol.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i Oruchwylwyr Bydwragedd Powys ymwreiddio'r cysyniad o gardiau Sylwadau ynglŷn â Goruchwyliaeth ar gyfer casglu amrywiaeth o brofiadau a sylwadau bydwragedd ynglŷn â goruchwyliaeth. Bydd angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd ystyried sut y maent yn ymateb i'r sylwadau a'r profiadau, ac efallai y bydd angen iddynt ystyried amrywiaeth o ddulliau adborth os yw'r cyfraddau ymateb yn parhau i fod yn wael.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|
| V2 | **Cynhelir gweithgareddau goruchwylio cyfrinachol mewn ystafell sy'n sicrhau preifatrwydd.** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn sicrhau bod cyfleusterau preifat ar gael ar gyfer holl weithgareddau Goruchwylwyr Bydwragedd. Er nad oes swyddfa benodol wedi ei neilltuo, defnyddir swyddfeydd y Pennaeth Bydwreigiaeth neu swyddfeydd datblygu ymarfer, a gellir cadw lle mewn swyddfeydd eraill fel "desgiau poeth".<br><br>Mae gan yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd liniaduron, ac mae cyswllt diwifr ar gael yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau bellach y gall Goruchwylwyr Bydwragedd ei ddefnyddio i fynd at gronfa ddata'r AGLI. | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** **Cymedrol** **Gwan** | |

| V2 **Canlyniad:** | Cryf | Cymedrol | Gwan |
|---|---|---|---|
| **Nid aseswyd y safon hon, ac mae argymhelliad y llynedd yn parhau i fod yn berthnasol.** | **Dangoswyd ystafell benodol i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y cynhelir cyfweliadau goruchwylio** | **Mae ystafell benodol ar gael gan amlaf neu gellir dangos i Swyddog Bydwreigiaeth yr Awdurdod Goruchwylio Lleol lle y sicrheir bod ystafelloedd ar gael** | **Ni ellir nodi unrhyw ystafelloedd neu mae'n ymddangos y cânt eu neilltuo yn ôl yr angen** |
| | **Ceir mynediad i'r rhyngrwyd yn yr ystafell benodol er mwyn gallu gweithio ar-lein, yn ogystal â mynediad at gronfa ddata'r Awdurdod Goruchwylio Lleol** | **Ni cheir mynediad rheolaidd i'r rhyngrwyd** | **Dim mynediad i'r rhyngrwyd** |
| | **Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** | **Mae llai na 10 o fydwragedd yn nodi y rhoddir sylw priodol i breifatrwydd yn eu hadolygiad blynyddol / trafodaethau Goruchwylwyr Bydwragedd** |

**Sylwadau'r AGLI**

Nid adolygwyd tystiolaeth ar gyfer y safon hon. Yn yr archwiliad a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, dywedwyd bod angen i Oruchwylwyr Bydwragedd Powys ystyried archwiliadau o sylwadau'r bydwragedd ynglŷn â goruchwyliaeth, er mwyn cael sampl o sylwadau i sicrhau bod 20 o'r bydwragedd yn mynegi bod eu hadolygiad blynyddol yn cael ei werthfawrogi ac yn cael ei gynnal gan roi sylw priodol iddo, a hynny mewn lleoliad preifat a chyfrinachol.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Ni wnaed unrhyw argymhellion ychwanegol.

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI</th></tr>
<tr><td>V3</td><td>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan yn y broses o ddatblygu polisïau a chanllawiau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer ymarfer clinigol.</td><td colspan="2">Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan mewn datblygu canllawiau – Mae'r Fydwraig Risgiau Clinigol yn gweithio fel goruchwyliwr bydwragedd gyda'r Fydwraig Datblygu Ymarfer i adolygu, diwygio a datblygu'r holl ganllawiau. Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn awduron nifer o ganllawiau.<br><br>Tystiolaeth eglur fod yr holl ganllawiau yn cael eu hanfon at y Goruchwylwyr Bydwragedd i gyd er mwyn cael eu sylwadau.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V3 Canlyniad:<br><br>AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref.<br><br>Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.</td><td>Proses eglur sy'n amlinellu sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â'r grŵp datblygu canllawiau<br><br>Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel datblygwyr</td><td>Mae rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â datblygu canllawiau hyd yn oed os nad yw hyn yn broses ffurfiol<br><br>Canllawiau gwirioneddol sy'n enwi Goruchwylwyr Bydwragedd fel unigolion yr ymgynghorwyd â hwy</td><td>Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n cyfeirio at Oruchwylwyr Bydwragedd yn datblygu neu'n cymeradwyo canllawiau</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br><br>Roedd y dystiolaeth a ddarparwyd yn ystod yr ymweliad archwilio yn cadarnhau'r broses eglur ar gyfer swyddogaeth y Goruchwylwyr Bydwragedd o ran datblygu canllawiau. Mae tystiolaeth ar gael i ddangos bod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu rhestru fel awduron canllawiau. Mae'r Goruchwylwyr yn derbyn unrhyw bolisïau neu ganllawiau drafft trwy'r e-bost. Mae cofnodion cyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn adlewyrchu sut y mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd yn trafod canllawiau penodol lle y mae angen archwilio materion clinigol / materion sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth.<br><br>Mae'r canllawiau yn cael eu cadarnhau yng nghyfarfod y Gyfarwyddiaeth Plant a Menywod cyn iddynt gael eu cymeradwyo mewn Pwyllgorau Uwch Nyrsys, Llywodraethu Clinigol a Rheoli Risg. Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd camau pendant i sicrhau y cydnabyddir ac y cofnodir eu bod wedi gweithredu fel Goruchwyliwr Bydwragedd pan fyddant yn mynd i gyfarfodydd ac yn cyfrannu yn rhinwedd eu swydd fel Goruchwyliwr Bydwragedd. Yn ystod yr ymweliad archwilio, rhannodd y Pennaeth Ansawdd a Diogelwch nifer o enghreifftiau lle'r oedd Goruchwylwyr Bydwragedd wedi herio cywirdeb y cofnodion os nad oedd wedi'i gofnodi eu bod yno fel Goruchwyliwr Bydwragedd.</td></tr>
</table>

**Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys wedi nodi yn eu cynllun gweithredol bod angen i’r polisi sefydliadol ar gyfer polisïau a’r canllawiau ddangos swyddogaeth goruchwyliaeth statudol wrth ddatblygu’r polisïau a’r canllawiau sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth ar gyfer ymarfer bydwreigiaeth glinigol.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V4 | **Mae dogfennau canllawiau a pholisïau lleol ar gael i bob bydwraig ar ffurf electronig neu gopi caled.** | Mae'r canllawiau a'r polisïau ar gael ar Fewnrwyd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/867/page/42735<br><br>Mae copi caled o'r ffolder polisïau ar gael ym mhob Canolfan Eni.<br>Mae'r Fydwraig Datblygu Ymarfer a'r Fydwraig Risgiau Clinigol (Goruchwyliwr Bydwragedd) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â'r canllawiau yn ystod y dyddiau diweddaru. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V4 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref/gymedrol, a gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.** | **Proses eglur sy'n dangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu gyda bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Ceir proses eglur i Oruchwylwyr Bydwragedd ddosbarthu canllawiau a sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** | **Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn arwain ar gyfathrebu, ond mae'n amlwg eu bod yn ymwneud â phroses o gyfathrebu â bydwragedd pan ddatblygir canllawiau newydd**<br><br>**Efallai nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gwneud y dosbarthu, ond gallant ddangos eu bod yn ymwneud i ryw raddau â sicrhau bod bydwragedd yn ymwybodol o'r canllawiau neu'n cytuno arnynt** | **Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyflawni unrhyw swyddogaeth wrth hysbysu bydwragedd am ganllawiau newydd neu sicrhau eu bod yn ymwybodol ohonynt / cytuno arnynt** |

**Sylwadau'r AGLI**

Yn ystod yr ymweliad archwilio, cadarnhaodd y bydwragedd fod y canllawiau a'r polisïau lleol ar gael iddynt ar ffurf electronig a chopi caled.

Disgrifiodd y bydwragedd fuddiannau'r sesiwn ar y canllawiau yn ystod y dyddiadau diweddaru ar gyfer bydwragedd a'r cyfarfodydd tîm misol a oedd yn trafod y polisïau / canllawiau newydd. Dywedodd y bydwragedd fod y sesiynau ymwybyddiaeth hyn yn broses gyfathrebu werthfawr pan ddatblygir canllawiau newydd.

Cadarnhawyd bod y bydwragedd yn llenwi ffurflen lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen ac ymrwymo i'r canllawiau a'r polisïau newydd.

**Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i'r polisi ar gyfer polisïau a chanllawiau nodi swyddogaeth Goruchwylwyr Bydwragedd o ran arwain ar gyfathrebu â bydwragedd pan fo'r canllawiau a'r polisïau newydd wedi eu datblygu.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|
| V5 | **Mae gweithdai sgiliau ac ymarferion sy'n berthnasol i'w lleoliad ymarfer, ac a argymhellir gan CEMACH (yr Ymchwiliad Cyfrinachol i Iechyd Mamau a Phlant) ac argymhellion cenedlaethol eraill, ar gael i fydwragedd ac maent yn manteisio arnynt.** | Mae'r gronfa ddata hyfforddiant yn dangos bod 100% o Fydwragedd Powys yn mynychu gweithdai sgiliau ac ymarferion.<br><br>Mae'r Bydwragedd yn mynychu diwrnodau diweddaru yn y gymuned sy'n cael eu cynnal dair gwaith y flwyddyn.<br><br>Mae Bydwragedd Powys hefyd yn gweithio am bythefnos mewn Ysbyty Cyffredinol Dosbarth ar batrwm cylchdro, er mwyn sicrhau eu bod yn cynnal eu sgiliau ar gyfer gweithio gyda menywod risg uchel. | |

| | Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
|---|---|---|---|---|
| V5 | **Canlyniad:**<br><br>**Nid aseswyd y safon hon, ac nid oedd unrhyw argymhellion o'r flwyddyn flaenorol.** | **Ceir cofnod hyfforddiant sy'n dangos bod rhaglen wedi'i sefydlu o flwyddyn i flwyddyn sy'n ymdrin â'r holl brif sgiliau ac ymarferion a argymhellir gan CEMACH**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 95 - 100% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o gofnod hyfforddiant ond nid yw'n gyfredol nac yn dangos gwelliant parhaus o ran presenoldeb**<br><br>**Ceir cofnod clir i ddangos bod 90 - 95% o fydwragedd, o flwyddyn i flwyddyn, wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarfer a chael eu profi'n llwyddiannus.**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** | **Nid oes cynllun hyfforddiant wedi'i sefydlu i gefnogi presenoldeb na gwelliant yn y niferoedd sy'n mynychu**<br><br>**Mae llai na 90% o fydwragedd wedi mynychu hyfforddiant sgiliau ac ymarferion gorfodol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac mewn blynyddoedd blaenorol**<br><br>**Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio'r broses sgiliau ac ymarfer, pryd y dilynwyd yr hyfforddiant hwn ddiwethaf a sut y cawsant eu profi** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae Goruchwylwyr Powys yn cymryd camau pendant i gefnogi'r broses o gynllunio a hwyluso'r rhaglen i ddiweddaru sgiliau bydwreigiaeth.

Nid aseswyd y safon hon yn rhan o'r broses archwilio.

| |
|---|
| **Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Ni wnaed unrhyw argymhellion. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V6 a V7 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cadw cofnodion ynglŷn â gweithgareddau Goruchwylio am 7 mlynedd. *Rheol 12.* Caiff cofnodion goruchwylio eu storio mewn ffordd sy'n cynnal cyfrinachedd. *Rheol 12.*** | Mae cwpwrdd ffeilio dan glo ar gael i'r holl Oruchwylwyr.<br><br>Roedd Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn gallu cadarnhau bod holl gofnodion y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cadw'n ganolog gan weinyddwr y Goruchwylwyr Bydwragedd.<br><br>Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn defnyddio cronfa ddata'r AGLI i gadw cofnodion ar ffurf electronig. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V6 a V7 **Canlyniad:**<br><br>**AGLI –**<br>**Nid aseswyd y safonau hyn, ac nid oedd unrhyw argymhellion o'r flwyddyn flaenorol.** | | **Ceir man penodol sydd wedi ei nodi'n eglur ar gyfer cadw cofnodion goruchwylio nad ydynt yn rhan o unrhyw ffeiliau Adnoddau Dynol eraill.**<br><br>**Gellir dangos bod y cofnodion hyn yn mynd yn ôl o leiaf 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **Ceir man lle y cedwir cofnodion goruchwylio, ond maent yn tueddu i gael eu cadw gyda ffeiliau Adnoddau Dynol eraill, er eu bod yn dal ar wahân ac nad oes modd i bobl eraill gael atynt**<br><br>**Ni ellir dangos bod y cofnodion yn mynd yn ôl 7 mlynedd**<br><br>**Gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio rhan o'r broses y byddent yn ei dilyn pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** | **Nid oes man penodol ar gael ac mae ffeiliau goruchwylio yn cael eu cadw gyda ffeiliau rheoli/Adnoddau Dynol sydd ar gael i bobl eraill**<br><br>**Ychydig o gofnodion a gedwir yn ymwneud â blynyddoedd blaenorol, neu ddim o gwbl**<br><br>**Nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio'n ddigonol yr hyn y byddent yn ei wneud pe byddent yn cael trafferth cadw cofnodion yn lleol** |

**Sylwadau'r AGLI**

Nid aseswyd y safonau hyn yn rhan o'r broses archwilio.

**Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**

Ni wnaed unrhyw argymhellion.

<table>
<tr><th>Rhif</th><th>Meini Prawf i'w Mesur</th><th colspan="2">Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan</th><th>Camau Gwella Arfaethedig y BILI</th></tr>
<tr><td>V8</td><td>Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael cymorth gyda'u tasgau gweinyddol yn unol â chyllid yr AGLI.</td><td colspan="2">Cytunwyd ar gymorth gweinyddol am 7 ½ awr yr wythnos, gyda swydd ddisgrifiad eglur. Gadawodd deiliad diwethaf y swydd ym mis Rhagfyr 2012.<br><br>Mae'r swyddogion gweithredol wedi cymeradwyo'r swydd wag a disgwylir i hysbyseb recriwtio gael ei gyhoeddi.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth</td><td>Mesurau: Cryf</td><td>Cymedrol</td><td>Gwan</td></tr>
<tr><td colspan="2">V8 Canlyniad:<br><br>AGLI – Nid aseswyd y safon hon, ac mae argymhelliad y llynedd yn parhau i fod yn berthnasol.</td><td>Ceir swyddog gweinyddol penodol sy'n gallu dangos ei swyddogaeth yn eglur o ran cynorthwyo Goruchwylwyr Bydwragedd trwy gofnodion a chyfathrebu ar lafar</td><td>Mae rhywfaint o amser wedi'i neilltuo ar gyfer materion gweinyddol, ond nid yw deiliad unigol y swydd yn gallu dangos cofnodion cystal o'i gwaith na'i ddisgrifio'n dda</td><td>Gellir gweld trwy adolygu cofnodion ac wrth drafod nad oes amser wedi'i neilltuo mewn gwirionedd ar gyfer cymorth gweinyddol</td></tr>
<tr><td colspan="5">Sylwadau'r AGLI<br><br>Er nad ystyriwyd y safon hon yn rhan o'r archwiliad, amlygodd y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd y ffaith y bu bwlch o ran cymorth gweinyddol ar gyfer goruchwyliaeth yn ystod adeg brysur o ran Bwriad i Ymarfer a pharatoi ar gyfer y broses archwilio flynyddol. Ni cheir effaith sylweddol ar hyn o bryd, ond roedd tystiolaeth bod y gwaith ffeilio yn cronni ac y bydd angen i'r deiliad swydd newydd roi trefn arno.</td></tr>
<tr><td colspan="5">Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus<br><br>Mae tîm Goruchwylwyr Bydwragedd Powys wedi nodi sut y byddant yn cefnogi'r cyfnod hyfforddiant sefydlu ar gyfer deiliad newydd y swydd trwy sicrhau datblygiad perthnasol ar gyfer gorchwylion gweinyddol y Goruchwylwyr Bydwragedd. Argymhellwyd y dylai deiliad y swydd gael cynnig cefnogaeth y rhwydwaith o swyddogion gweinyddol ar draws y timau Goruchwylwyr Bydwragedd yng Nghymru.</td></tr>
</table>

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V9 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a chaiff y trafodion eu cofnodi.** | Cynhelir cyfarfodydd unwaith bob 6 wythnos ac mae cerdyn gweithredu yn darparu cofnod o'r cyfarfod.<br><br>Dylai Goruchwylwyr Bydwragedd Powys barhau i fynd i gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd mewn Byrddau Iechyd cyfagos a gweithdai rhanbarthol pan fo'n briodol, a sicrhau y rhennir buddiannau â'r cydweithwyr Goruchwylwyr Bydwragedd yn ôl ym Mhowys. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** Cryf | Cymedrol | Gwan |
| V9 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – Nid aseswyd y safon hon, ac mae argymhelliad y flwyddyn flaenorol yn parhau i fod yn berthnasol.** | **Ceir cofnodion eglur o gyfarfodydd gyda Chylch Gorchwyl a chynllun gweithgarwch/gosod agenda**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol yn eglur ac mae lefel presenoldeb o 70 – 75% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses eglur ar gyfer dosbarthu cofnodion a neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **Ceir cofnodion o gyfarfodydd ond nid oes proses eglur ar gyfer gosod yr agenda na Chylch Gorchwyl ar gyfer y grŵp**<br><br>**Cofnodir pawb sy'n bresennol ac mae lefel presenoldeb o 50 - 70% ym mhob cyfarfod**<br><br>**Ceir proses ar gyfer dosbarthu cofnodion ond nid yw mor amlwg sut y cymerir camau gweithredu a phwy sy'n gyfrifol am wneud hynny**<br><br>**Roedd 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** | **Nid oes trywydd cofnodion y gellir ei archwilio, Cylch Gorchwyl na chynllun eglur ar gyfer gosod agenda**<br><br>**Mae'n ymddangos bod llai na 50% yn bresennol yn rheolaidd ym mhob cyfarfod**<br><br>**Nid oes proses wedi'i sefydlu ar gyfer dosbarthu cofnodion na neilltuo camau gweithredu i Oruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Roedd llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd yn gallu disgrifio'r uchod i gyd** |

**Sylwadau'r AGLI**

Nid aseswyd y safon hon, ac mae'r argymhellion y dylai Goruchwylwyr Bydwragedd Powys barhau i fynd i gyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd mewn Byrddau Iechyd cyfagos a gweithdai rhanbarthol pan fo'n briodol, a sicrhau y rhennir buddiannau â'r cydweithwyr Goruchwylwyr Bydwragedd yn ôl ym Mhowys, yn parhau i fod yn berthnasol.

**Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**

Ni wnaed unrhyw argymhellion ychwanegol.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V10 | **Mae mecanweithiau effeithiol ar waith i sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth a ddosberthir gan gyrff statudol.** | Mae'r holl wybodaeth gan AGIC, y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, yr AGLI, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion ac ati yn cael ei hanfon ymlaen fel e-bost swmp at yr holl Oruchwylwyr Bydwragedd a / neu'r Pennaeth Bydwreigiaeth, fel y bo angen. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V10 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – Nid aseswyd y safon hon.** | **Mae proses eglur wedi'i sefydlu y gellir dangos ei bod yn sicrhau bod pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn gwybodaeth gan gyrff statudol h.y. y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol, yr Awdurdod Goruchwylio Lleol, yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion**<br><br>**Gallai 100% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Mae proses rannol wedi'i sefydlu, ond nid oes tystiolaeth eglur i ddangos sut y mae pob Goruchwyliwr Bydwragedd yn derbyn y wybodaeth**<br><br>**Gallai 75% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** | **Nid oes proses eglur wedi'i sefydlu ac mae'n ymddangos bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar hap ac yn ôl y gofyn**<br><br>**Gallai llai na 50% o'r Goruchwylwyr Bydwragedd a gyfwelwyd ddisgrifio'r broses** |

**Sylwadau'r AGLI**

Mae negeseuon e-bost ar gael i'r holl Oruchwylwyr Bydwragedd gan fod TG ar gael ar draws y sefydliad.

Rhennir cylchlythyr yr AGLI yn eang â'r bydwragedd, ac mae wedi ei arddangos ar draws y gwasanaeth mamolaeth.

**Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**

Ni wnaed unrhyw argymhellion ychwanegol.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V11 | **Mae strategaethau fframweithiau Llywodraethu Clinigol Lleol yn cydnabod goruchwyliaeth statudol i fydwragedd.** | Mae'r Fydwraig Arweiniol â'r portffolio risg yn mynd i gyfarfodydd llywodraethu clinigol perthnasol, ac mae'n darparu adborth ynglŷn â llywodraethu clinigol yn rhan o gyfarfod misol y Goruchwylwyr Bydwragedd. Mae'r fframwaith Ansawdd a Diogelwch yn y Bwrdd Iechyd yn cydnabod yn eglur gyfraniadau goruchwyliaeth at adolygiadau o ddigwyddiadau, gan amlygu a rhoi sylw i bryderon. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V11 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI - BODLONWYD â thystiolaeth gref/gymedrol, a gwnaed argymhellion.** | **Ceir polisi ysgrifenedig eglur yn yr adran llywodraethu clinigol sy'n ystyried y rhyng-gysylltiad rhwng y timau llywodraethu Clinigol/Goruchwylwyr Bydwragedd**<br><br>**Ceir cofnodion rheolaidd o gyfarfodydd lle y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn bresennol yn rhinwedd eu swyddogaeth oruchwylio ac yn dangos eu cyfraniad at yr agenda llywodraethu clinigol** | **Nid oes polisi ysgrifenedig wedi'i sefydlu, ond mae rheolwyr llywodraethu clinigol yn gallu disgrifio'r hyn y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ei wneud a sut y maent yn cyfrannu at yr agenda llywodraethu clinigol ar hyn o bryd**<br><br>**Roedd Goruchwyliwr Bydwragedd yn bresennol yn y pwyllgor llywodraethu clinigol priodol, neu wedi cyfrannu ato, ar 2 achlysur o leiaf yn ystod y flwyddyn flaenorol** | **Nid oes tystiolaeth eglur i ddangos bod y tîm llywodraethu clinigol yn cydnabod Goruchwylwyr Bydwragedd, ac ni allant ddisgrifio'r rhyng-gysylltiad yn eglur**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwyliwr Bydwragedd yn mynychu unrhyw bwyllgor llywodraethu clinigol yn ei hawl ei hun hyd yn oed os yw hi yno yn rhinwedd dwy swyddogaeth** |

**Sylwadau'r AGLI**

Yn ystod yr ymweliad archwilio, cadarnhaodd y tîm adolygu â'r Pennaeth Ansawdd a Diogelwch fod rhyng-gysylltiad eglur rhwng goruchwyliaeth a llywodraethu clinigol ac y cydnabyddir gwerth goruchwyliaeth. Roedd Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn gallu darparu nifer o enghreifftiau o sut y maent yn cyfrannu at yr agenda llywodraethu clinigol o ran ymarfer bydwreigiaeth neu faterion yn ymwneud â'r Goruchwylwyr Bydwragedd. Dywedwyd bod y Goruchwylwyr Bydwragedd wedi cymryd camau pendant yn ystod y 12 mis diwethaf i gofnodi eu presenoldeb fel Goruchwyliwr Bydwragedd ochr yn ochr â theitl eu swydd barhaol.

Soniodd Goruchwylwyr Bydwragedd Powys hefyd am gamau cadarnhaol a gymerwyd, wrth i nifer o Oruchwylwyr Bydwragedd gael eu gwahodd i ryng-gysylltu â fframweithiau llywodraethu clinigol Ysbytai Cyffredinol Dosbarth cyfagos. Hysbyswyd bod hyn wedi bod o fudd ar nifer o lefelau i gyfnerthu cysylltiadau llywodraethu clinigol ar gyfer Goruchwylwyr Bydwragedd.

**Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**

Cydnabuwyd mai'r Fydwraig Risgiau Clinigol oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau'r rhyng-gysylltiad cryf â'r fframweithiau llywodraethau clinigol. Mae'n hanfodol bwysig sefydlu polisi ysgrifenedig eglur sy'n ystyried bod angen i dîm ehangach y Goruchwylwyr Bydwragedd gysgodi / cynrychioli'r fydwraig risgiau yn y cyfarfodydd llywodraethu clinigol a / neu gyflwyno unrhyw ganlyniadau perthnasol o ymchwiliadau Goruchwylwyr Bydwragedd neu ddatblygiadau gwasanaeth i ddangos yn llawn eu cyfraniad at faterion sy'n ymwneud â risgiau neu lywodraethu clinigol.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V12 | **Mae rhyng-gysylltiad amlwg rhwng goruchwylio a rheoli risg wrth ymchwilio i ddigwyddiadau critigol.** | Mae'r Fydwraig Arweiniol â phortffolio risg yn Oruchwyliwr Bydwragedd, ac mae'n sicrhau bod rhyng-gysylltiad cryf rhwng rheoli risg a goruchwyliaeth wrth ymchwilio i ddigwyddiadau critigol. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau**: **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V12 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref.**<br>**Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.** | **Ceir cylch gorchwyl eglur ar gyfer adolygu digwyddiadau difrifol sy'n cynnwys yr angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses**<br><br>**Pan fo canlyniadau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem a gynhaliwyd ynglŷn â digwyddiad difrifol yn cael eu hadolygu ar sail tîm amlddisgyblaethol, ceir tystiolaeth eglur bod Goruchwyliwr Bydwragedd wedi bod yn rhan o'r tîm yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Goruchwyliwr Bydwragedd er mwyn gallu rhannu'r gwersi a ddysgwyd** | **Nid oes cylch gorchwyl ysgrifenedig sy'n nodi y dylai Goruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o gyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol, ond gall aelodau staff llywodraethu clinigol a Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio bod hyn yn digwydd**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd a'r tîm llywodraethu clinigol yn cydweithio mewn adolygiad o ddigwyddiad difrifol ac yn arbennig pan fo gwersi i'w dysgu o ran arfer bydwreigiaeth** | **Nid oes cydnabyddiaeth fod angen i Oruchwylwyr Bydwragedd fod yn rhan o'r broses adolygu digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn cael eu cynnwys mewn cyfarfodydd adolygu digwyddiadau difrifol ac nid oes proses iddynt rannu gwersi gyda'r tîm bydwreigiaeth** |

**Sylwadau'r AGLI**

Yn ystod yr ymweliad archwilio, cadarnhawyd â'r Pennaeth Ansawdd a Diogelwch fod cylch gorchwyl eglur ar gael ar gyfer adolygu digwyddiad difrifol a phroses i sicrhau y byddai goruchwyliaeth yn rhan ohono. Ni fu unrhyw Ddigwyddiad Difrifol i wasanaethau mamolaeth Powys yn ystod y 12 mis diwethaf, ond rhoddodd y Goruchwylwyr Bydwragedd enghreifftiau lle'r oeddent wedi cymryd rhan mewn adolygiadau o Ddigwyddiadau Difrifol neu adolygiadau Dadansoddiad o Wraidd y Broblem mewn Ysbytai Cyffredinol Dosbarth.

Mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio'n agos â'r fydwraig risgiau er mwyn dyrannu'n deg unrhyw gamau adolygu achosion / myfyrio gyda hysbysiadau o

| |
|---|
| ddigwyddiadau.<br><br>Mae fframwaith y sefydliad ar gyfer rheoli risg ac ymdrin â Digwyddiadau Difrifol wedi bod yn rhannu arfer da gan Oruchwylwyr Bydwragedd Powys fel esiampl i wasanaethau eraill ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys, fel tystiolaeth o ryng-gysylltu effeithiol â gwasanaethau a'r tîm rheoli risgiau. |
| **Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Fel yn safon V11, cydnabuwyd mai'r Fydwraig Risgiau Clinigol oedd yn bennaf gyfrifol am sicrhau'r rhyng-gysylltiad cryf â'r fframweithiau llywodraethau clinigol, ac mae'n hanfodol bwysig fod y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ehangach yn parhau i ddatblygu eu rhyng-gysylltiad â'r tîm rheoli risg er mwyn sicrhau cyfraniad teg. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V13 | **Caiff canlyniadau ymchwiliadau i ddigwyddiadau critigol eu dosbarthu er mwyn rhoi sail i arferion.** | Rhennir canlyniadau Adolygiadau Digwyddiadau Difrifol/Adolygiadau Achosion trwy gylchlythyr risgiau clinigol. Maent yn rhan o'r rhaglen ddysgu ar gyfer hyfforddiant argyfwng obstetrig, a rhennir Digwyddiadau Difrifol o bwys mewn Pecyn Cymorth penodol ar gyfer y Goruchwylwyr Bydwragedd. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V13 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref. Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.** | **Ceir proses eglur a dulliau gwirioneddol o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol gyda bydwragedd yn ymarferol**<br><br>**Ceir enghreifftiau o newidiadau i arferion gwaith y gellir eu rhannu i ddangos bod y broses hon yn gweithio**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod unrhyw newidiadau i arferion gwaith sy'n deillio o ganlyniadau digwyddiad difrifol wedi eu harchwilio i sicrhau eu bod wedi arwain at welliant**<br><br>**Gall o leiaf 20 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Ceir rhywfaint o dystiolaeth o ddull o rannu canlyniadau digwyddiadau difrifol h.y. cylchlythyr, ond nid yw hyn wedi'i ymsefydlu'n dda**<br><br>**Ceir tystiolaeth anecdotaidd o newidiadau i arferion gwaith ond ni ddilynwyd proses ffurfiol i'w cyflwyno**<br><br>**Ceir tystiolaeth o newidiadau i arferion gwaith ond nid ydynt wedi eu harchwilio i fesur llwyddiant**<br><br>**Gall o leiaf 10 o fydwragedd ar lefel ward ddisgrifio'r broses a newid diweddar i arferion gwaith** | **Nid oes proses ffurfiol nac anffurfiol ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes unrhyw ganlyniadau a all ddangos newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i ddigwyddiadau difrifol**<br><br>**Nid oes tystiolaeth o archwilio newidiadau i arferion gwaith**<br><br>**Gall llai na 10 bydwraig ddisgrifio unrhyw beth tebyg i broses ar gyfer rhannu canlyniadau digwyddiadau difrifol a sut y mae'r rhain yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith** |
| **Sylwadau'r AGLI**<br><br>Ers archwiliad 2011-12, mae fframwaith eglur yn parhau i fodoli er mwyn cefnogi Goruchwylwyr Bydwragedd i gynnal adolygiad o Ddigwyddiad Difrifol. Disgwylir i'r Goruchwyliwr Bydwragedd anfon camau gweithredu, argymhellion ac ati at y fydwraig risgiau i ddangos canlyniadau ar y gronfa ddata Datix. Cydnabu'r Pennaeth Ansawdd a Diogelwch fod bydwreigiaeth yn parhau i gymryd camau pendant iawn i sicrhau bod y broses yn gyflawn. | | | | |

| |
|---|
| Yn ystod yr ymweliad, amlygodd y bydwragedd eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith y rhennir gwersi a ddysgwyd trwy'r sesiynau pecyn cymorth.  Roedd y bydwragedd yn cydnabod bod y cylchlythyr yn fodd o rannu gwybodaeth. |
| **Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Anogir y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd i barhau â'u dull o ddysgu gwersi, ac i fanteisio ar bob cyfle i rannu enghreifftiau o arfer da â Goruchwylwyr Bydwragedd eraill a staff y Bwrdd Iechyd a ledled Cymru.<br><br>Dylai'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd ddarparu enghreifftiau o newidiadau o ran ymarfer sy'n deillio o ganlyniadau Digwyddiadau Difrifol ar gyfer ymweliadau archwilio gan yr AGLI yn y dyfodol. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V14 | **Caiff y cofnodion a gedwir gan bob bydwraig eu harchwilio'n flynyddol.** ***Rheol 9.*** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn defnyddio dull safonol ar gyfer archwilio cofnodion yn rhan o'r broses adolygu flynyddol, a chynhelir archwiliadau ychwanegol gan gymheiriaid.<br><br>Llunnir adroddiad archwilio i nodi'r gwersi y dylid eu dysgu o'r archwiliadau cadw cofnodion. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V14 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref. Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus.** | **Ceir proses ysgrifenedig eglur i nodi pa brosesau archwilio cofnodion a fydd yn cael eu cynnal, pa mor aml, pwy fydd yn cymryd rhan a sut y bydd y canlyniadau ar gyfer gwella yn cael eu rhannu gyda phob bydwraig**<br><br>**Ceir enghreifftiau o offerynnau archwilio cofnodion i ddangos sut y cynhelir yr archwiliadau**<br><br>**Ceir enghreifftiau o archwiliadau a gynhaliwyd o flwyddyn i flwyddyn a pha wersi a ddysgwyd o bob un ohonynt**<br><br>**Ceir enghreifftiau rheolaidd o sut y mae'r gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu rhannu â phob bydwraig**<br><br>**Ceir tystiolaeth o archwilio a gwella rhwng adolygiadau** | **Nid oes proses ysgrifenedig wedi'i sefydlu ar gyfer archwilio cofnodion ond mae tystiolaeth bod hyn yn digwydd yn rheolaidd, mewn gwahanol fformatau, gan wahanol bobl/timau a bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu'n aml**<br><br>**Ceir un offeryn archwilio o leiaf i ddangos sut y cynhelir archwiliad**<br><br>**Ceir rhai enghreifftiau o archwiliadau blaenorol ond nid ydynt yn systematig**<br><br>**Ceir rhai enghreifftiau o wersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu, ond nid yw hyn yn gyson**<br><br>**Ceir tystiolaeth o ail-archwilio, ond mae gwelliant parhaus yn llai amlwg** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw'n eglur pa mor aml, gan bwy na sut y mae archwiliadau'n cael eu cynnal**<br><br>**Nid oes unrhyw offerynnau archwilio cydnabyddedig i ddangos sut y bydd archwiliadau cadarn yn cael eu cynnal neu wedi cael eu cynnal**<br><br>**Dim ond enghreifftiau ad hoc a geir o archwiliadau cofnodion**<br><br>**Ceir enghreifftiau ad hoc o rannu'r gwersi a ddysgwyd**<br><br>**Prin yw'r dystiolaeth o ail-archwilio neu welliannau, neu ddim tystiolaeth o gwbl** |

<table>
<tr><th></th><th>Gall o leiaf 20 o fydwragedd ddisgrifio pob un o’r camau uchod a siarad am newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad</th><th>Gall o leiaf 10 o fydwragedd ddisgrifio’r rhan fwyaf o’r camau uchod a siarad am sut y mae hyn wedi dylanwadu ar arferion gwaith</th><th>Gall llai na 10 o fydwragedd ddisgrifio unrhyw un o’r camau uchod neu siarad am sut y mae archwiliadau cofnodion yn dylanwadu ar newidiadau i arferion gwaith</th></tr>
<tr><td colspan="4">Sylwadau’r AGLI<br><br>Dangosodd Goruchwylwyr Bydwragedd Powys y broses o archwilio cofnodion trwy’r dull archwilio a’r adroddiadau archwilio a oedd yn nodi gwersi eglur y dylid eu dysgu o ran safonau cadw cofnodion. Cynhaliwyd y gweithgaredd hwn ar sail cylchdro gan holl aelodau’r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd, er mwyn sicrhau y parheir i ganolbwyntio ar y maes ymarfer bydwreigiaeth pwysig hwn. Cyflwynodd y Goruchwylwyr Bydwragedd a’r bydwragedd y newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r archwiliadau o’r cofnodion, ac roeddent yn amlygu gwerth hyfforddiant diweddar ar gadw cofnodion a ddarparwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol Iechyd Cymru yn 2011-12. Gallai’r bydwragedd a gyfwelwyd yn ystod yr ymweliad archwilio ddisgrifio’r agwedd hon ar y broses adolygu flynyddol.</td></tr>
<tr><td colspan="4">Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus<br><br>Mae hwn yn faes heriol iawn ar gyfer ymarfer bydwreigiaeth, a dylid parhau i’w archwilio mewn ffordd gadarn a chyson, fwy nag unwaith y flwyddyn, trwy ddefnyddio gwahanol ddulliau megis adolygiad gan gymheiriaid, adolygiad grŵp ac amrywiol weithwyr yn casglu detholiad o gofnodion ar hap ar gyfer y prif archwiliad. Dylai’r Goruchwylwyr Bydwragedd barhau â’r cynllun blynyddol ar gyfer cynnal archwiliadau rheolaidd, a chynnwys sut y bydd gwersi i’w dysgu yn cael eu rhannu; sut yr anogir staff i newid ymarfer; a sut y cynhelir ailarchwiliadau i sicrhau y gwnaed gwelliannau.<br><br>Dylai 100% o’r bydwragedd barhau i gael archwilio o leiaf ddwy gyfres o gofnodion yn eu hadolygiad blynyddol.</td></tr>
</table>

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V15 | **Rhoddir cyhoeddusrwydd i wybodaeth sy'n berthnasol i oruchwylio bydwragedd yn statudol, e.e. drwy gyfrwng cylchlythyrau, bwletinau, gwefannau, e-bost, negeseuon llais ac adroddiadau gan yr AGLI, Cyflogwyr a Goruchwylwyr Bydwragedd.** | Mae gwybodaeth sydd wedi ei harddangos ym mhob un o'r Canolfannau Geni yn cynnwys posteri ynglŷn â Goruchwylwyr Bydwragedd Powys. Rhoddir taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i'r holl fenywod, ac mae'r daflen "Croeso i Bowys" yn cynnwys rhan ar oruchwyliaeth leol.<br><br>Mae'r broses o ddatblygu'r wefan yn cynnwys gwybodaeth ar gyfer goruchwylwyr bydwragedd **Dolen i'r wefan** | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** Cryf | Cymedrol | Gwan |
| V15 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – Ni chafodd y safon hon ei hasesu ac mae'r argymhelliad o'r flwyddyn flaenorol yn dal yn berthnasol** | **Ceir tystiolaeth amlwg y rhoddir cyhoeddusrwydd i Oruchwylwyr Bydwragedd yn yr holl fannau y mae menywod a theuluoedd yn ymweld â hwy**<br><br>**Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar Oruchwylwyr Bydwragedd ar gael ynghyd â dogfennau ysgrifenedig eraill sy'n esbonio wrth fenywod pam y gallent fod yn dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd, a sut i wneud hynny**<br><br>**Ceir gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol am swyddogaeth y Goruchwyliwr Bydwragedd a sut i gysylltu â hi**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod yr adroddiad blynyddol yn cael ei rannu gyda fforymau defnyddwyr megis y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau** | **Mae rhywfaint o wybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg, ond nid yw'n gyson ym mhob man lle y gwelir menywod a theuluoedd**<br><br>**Mae taflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ar gael ond nid oes gwybodaeth ychwanegol wedi'i pharatoi'n lleol ac nid yw'n eglur i fenywod pam y byddent efallai'n dymuno cysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd**<br><br>**Ceir cyfeiriad at Oruchwylwyr Bydwragedd ar y wefan ond dim manylion ychwanegol**<br><br>**Mae'r adroddiad blynyddol wedi ei rannu gyda'r Bwrdd ond tystiolaeth gyfyngedig sydd i ddangos ei fod wedi ei rannu'n ehangach** | **Nid oes gwybodaeth am Oruchwylwyr Bydwragedd yn amlwg i aelodau'r cyhoedd ei gweld mewn unrhyw fan**<br><br>**Nid oes taflenni a baratowyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth nac yn lleol ar gael i fenywod**<br><br>**Ni chyfeirir at Oruchwylwyr Bydwragedd ar wefan y Bwrdd Iechyd Lleol**<br><br>**Dim ond gyda'r Bwrdd y rhannwyd yr adroddiad blynyddol, os o gwbl** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Mamolaeth ac ar draws y sefydliad i fyny at lefel y Bwrdd**<br><br>**Mae o leiaf 20 o fydwragedd yn ymwybodol bod cylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol yn cael ei rannu gyda bydwragedd a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Mae o leiaf 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol a gallant ddisgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** | **Mae llai na 10 o fydwragedd yn ymwybodol o gylchlythyr yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ac yn gallu disgrifio pa mor ddefnyddiol/perthnasol yr oedd iddynt yn eu harferion gwaith** |

**Sylwadau'r AGLl**

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn parhau i fod yn arweinwyr cryf sydd wedi ymrwymo i sicrhau bod y gwaith o oruchwylio yn weladwy i'r sefydliad, y bydwragedd a defnyddwyr y gwasanaethau mamolaeth.  Mae gwefan y Bwrdd Iechyd Lleol yn darparu amrywiaeth o wybodaeth am oruchwyliaeth, ac mae hefyd ar gael trwy daflen leol a phosteri, a thaflen y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.  Mae poster sy'n ymwneud yn benodol â goruchwyliaeth wedi ei arddangos yn yr holl fannau, ac mae'n cynnwys gwybodaeth am oruchwyliaeth a pham y gallech gysylltu â Goruchwyliwr Bydwragedd.  Mae gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys Bwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, ac mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd yn cymryd rhan weithredol yn y cyfarfodydd.  Cyfarfu Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLl â'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth cyn yr ymweliad archwilio, a darparodd y fforwm gyfrif cadarnhaol o sut yr oedd y Goruchwylwyr Bydwragedd yn cynnig cymorth i fenywod, a'r teimlad cyffredinol bod y gwasanaethau'n gwrando ar sylwadau'r menywod.  Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys wedi neilltuo cyfarfod Goruchwylwyr Bydwragedd er mwyn cyfarfod â menywod a gwrando ar eu straeon.

Caiff adroddiad blynyddol yr AGLl ac adroddiad blynyddol y Bwrdd Iechyd â'r Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth eu rhannu â'r Bwrdd trwy bapur briffio. Caiff ei baratoi gan y Pennaeth Bydwreigiaeth a'i gyflwyno gan y Cyfarwyddwr Nyrsio.  Roedd Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn croesawu presenoldeb parhaus y Cyfarwyddwr Nyrsio yn eu cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd i drafod yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau mamolaeth ym Mhowys a chodi proffil goruchwyliaeth.  Mae nifer o enghreifftiau wedi eu rhannu yng nghyfarfodydd y Goruchwylwyr Bydwragedd o Oruchwylwyr Bydwragedd yn gweithio fel tîm gyda'r bydwragedd i gynorthwyo'r menywod a'r bydwragedd os bydd menywod yn gwneud dewisiadau nad ydynt o anghenraid yn cyd-fynd â'u lefel risg.  Enghraifft arall o arfer da yw rhannu cynlluniau gofal a chynlluniau gweithredu trwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu SBAR.

**Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**

Bydd Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn parhau i rannu adroddiad blynyddol lleol y Goruchwylwyr Bydwragedd am 2012-2013, gan ysgrifennu crynodeb gweithredol ar fformat y Bwrdd, er mwyn sicrhau y parheir i roi sylw i'r wybodaeth mewn pwyllgorau perthnasol a chan y Bwrdd.

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|---|
| V16 | **Caiff Goruchwylwyr Bydwragedd eu cynnwys ym mhrosesau ffurfio polisïau, gosod safonau a monitro arferion a chyfarpar er budd Iechyd a Diogelwch.** | Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn parhau i archwilio'r holl offer cymunedol â phob bydwraig unigol pan fyddant yn bresennol ar ddiwrnodau diweddaru blynyddol. | | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** Cryf | Cymedrol | Gwan | |
| V16 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref.**<br>**Ni wnaed unrhyw argymhellion ar gyfer datblygiad.** | **Ceir polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward ac ar gyfer bydwragedd cymunedol**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod cyfarpar yn cael ei archwilio'n aml o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel**<br><br>**Ceir tystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio a monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG** | **Nid oes polisi eglur ar sut y mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â llunio prosesau ar gyfer archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, ond gall Goruchwylwyr Bydwragedd ddisgrifio sut y mae hyn yn digwydd**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar er mwyn sicrhau ei fod ar gael ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddiogel, ond nid yw hyn yn gyson**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, ond nid yw hyn yn gyson** | **Nid oes proses wedi'i sefydlu ac nid yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu disgrifio sut na pha mor aml y gwneir hyn**<br><br>**Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn archwilio cyfarpar ar lefel ward neu gymunedol, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl**<br><br>**Prin yw'r dystiolaeth i ddangos bod Goruchwylwyr Bydwragedd yn ymwneud â monitro hyfforddiant, sgorio ac arfer da rheolaidd o ran CTG, neu nid oes unrhyw dystiolaeth ohono o gwbl** | |
| **Sylwadau'r AGLI** | | | | | |

| |
|---|
| Yn ystod yr ymweliad archwilio, cadarnhaodd y tîm adolygu'r dystiolaeth o’r broses ar gyfer archwilio offer cymunedol ac offer y gwasanaeth, ac roeddent yn teimlo bod hyn yn enghraifft o arfer da y dylai timau Goruchwylwyr Bydwragedd eraill ar draws Cymru ystyried ei fabwysiadu. Roedd yn amlwg fod Goruchwylwyr Bydwragedd Powys wedi gwneud gwelliannau sylweddol flwyddyn ar ôl blwyddyn o ran archwilio offer unigol. Gwelwyd tystiolaeth yn ystod yr adolygiad bod fframwaith sicrwydd ar gael, y cedwir cofnodion eglur, ac yr hysbysir am unrhyw broblemau unigol wrth bob Goruchwyliwr Bydwragedd penodedig er mwyn cymryd camau dilynol. |
| **Argymhellion ar gyfer cefnogi datblygiad parhaus**<br><br>Ni wnaed unrhyw argymhellion. |

| Rhif | Meini Prawf i'w Mesur | Tystiolaeth a Gofnodwyd/a Welwyd<br><br>Canlyniad: Cofnod BILI – Cryf, Cymedrol, Gwan | | Camau Gwella Arfaethedig y BILI |
|---|---|---|---|---|
| V17 | **Mae Goruchwylwyr Bydwragedd yn rhoi gwybod i'w cyflogwr os ydynt yn pryderu y gallai adnoddau annigonol beryglu diogelwch y cyhoedd yn y gwasanaethau mamolaeth.** | Ni fu unrhyw ddigwyddiadau lle y mae'r Goruchwylwyr Bydwragedd wedi rhoi gwybod yn ffurfiol am bryderon. Dull mwy rhagweithiol gan y rheolwyr sy'n gyfrifol am hyn, o bosibl, gan arwain at ganllawiau eglur a threfniadau a rennir â'r holl staff ar gyfer hysbysu staff uwch.<br><br>Ni fu unrhyw ddigwyddiadau lle yr hysbyswyd y Pennaeth Bydwreigiaeth nad yw Goruchwylwyr Bydwragedd yn gallu cyflawni eu swyddogaeth. | | |
| | **Sylwadau'r AGLI am y Dystiolaeth** | **Mesurau:** **Cryf** | **Cymedrol** | **Gwan** |
| V17 | **Canlyniad:**<br><br>**AGLI – BODLONWYD â thystiolaeth gref. Gwnaed argymhellion ar gyfer datblygiad parhaus** | **Mae cofnodion cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn dangos y trafodir materion staffio neu risgiau eraill i ddiogelwch cleifion**<br><br>**Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu a luniwyd gan Oruchwylwyr Bydwragedd i gynorthwyo bydwragedd i gynnal arferion gwaith diogel ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny**<br><br>**Ceir tystiolaeth ysgrifenedig bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi eu pryderon gyda'r pennaeth bydwreigiaeth pan fo'u llwyth gwaith eu hunain yn peryglu eu gallu i amddiffyn y cyhoedd neu pan fo pryderon o'r fath yn ymwneud â darparu gwasanaethau, ac mae canlyniadau eglur yn deillio o hynny** | **Mae cofnodion cyfarfodydd yn dangos rhywfaint o drafodaeth ynglŷn â lefelau staffio diogel ac ati, ond nid yw mor eglur pa gamau a gymerwyd o ganlyniad**<br><br>**Ceir tystiolaeth o gynlluniau gweithredu ond nid yw'r rhain yn gadarn ac nid yw'r canlyniadau wedi'u diffinio'n eglur**<br><br>**Ceir rhywfaint o dystiolaeth bod Goruchwylwyr Bydwragedd wedi codi pryderon gyda'r pennaeth bydwreigiaeth ac eraill, ond ni fu unrhyw gamau dilynol na newidiadau i arferion gwaith o ganlyniad i hynny** | **Nid oes tystiolaeth bod materion o'r fath yn cael eu trafod gan Oruchwylwyr Bydwragedd yn eu cyfarfodydd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |

**Sylwadau'r AGLI**

Cynhelir cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn rheolaidd lle y mae'r agenda'n canolbwyntio ar swyddogaethau amddiffyn y cyhoedd. Dylai hyn alluogi'r Goruchwylwyr Bydwragedd i herio'r rheolwyr i fynd i'r afael â phryderon. Mewn achos o Ddigwyddiad Difrifol, byddai'r cynlluniau gweithredu perthnasol yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod tîm y Goruchwylwyr Bydwragedd gyda'r bwriad o gyfnerthu'r broses o lunio camau gweithredu a rhoi sicrwydd bod y rheolwyr yn rhoi sylw i'r meysydd pryder.

Mae Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI, y Pennaeth Bydwreigiaeth, a'r Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt yn cyfarfod bob tri mis, sy'n llwyfan ar gyfer trafod staffio a materion diogelwch eraill. Byddai unrhyw faterion nad ydynt wedi eu datrys yn cael eu cyfeirio at y Cyfarwyddwr Nyrsio fesul achos trwy gyfarfodydd chwe misol y rhanddeiliaid neu'n ad hoc os oes angen. Mae tîm y Goruchwylwyr Bydwragedd yn croesawu'r ffaith bod y Cyfarwyddwr Nyrsio'n dod i gyfarfod y Goruchwylwyr Bydwragedd yn ystod y flwyddyn gan fod hynny'n gyfle i drafod yr heriau perthnasol sy'n wynebu gwasanaethau mamolaeth Powys, ac yn galluogi'r Goruchwylwyr Bydwragedd i roi eu hadborth ar lefel weithredol.

Mae Goruchwylwyr Bydwragedd Powys yn cymryd camau pendant i weithio gyda'r bydwragedd a menywod sy'n gwneud dewisiadau ynglŷn â geni y tu allan i'r meini prawf ar gyfer risg isel. Roedd enghreifftiau da ar gael o Oruchwylwyr Bydwragedd yn cynllunio rhybuddion clinigol mewn partneriaeth a'r bydwragedd i gefnogi'r broses o gynllunio gofal ar gyfer menywod sy'n gwneud dewisiadau llai ffafriol ynglŷn â geni. Mae'r tîm Goruchwylwyr Bydwragedd wedi trefnu adolygiad pen bwrdd o achosion diweddar fel ymarfer dysgu myfyriol.

**Argymhellion i gefnogi datblygiad parhaus**

Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd sicrhau bod agenda cyfarfodydd Goruchwylwyr Bydwragedd yn parhau i roi pwyslais cryf ar fonitro materion rheoli sy'n deillio o bryderon difrifol perthnasol a chynlluniau gofal a lunnir yn sgil digwyddiadau difrifol. Mae angen i'r Goruchwylwyr Bydwragedd sicrhau y rhoddir amlygrwydd teg iddynt mewn pwyllgorau corfforaethol lle y maent i gyd yn cael cyfle i godi pryderon ynglŷn â'r ddarpariaeth os ystyrir bod gan bryderon o'r fath oblygiadau o ran diogelwch mamau neu fabanod.

Mae angen i'r cynllun gweithredol ar gyfer goruchwyliaeth yn 2013/14 barhau i nodi camau gweithredu CAMPUS, gan sicrhau y ceir unigolyn arweiniol ac amserlen ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu, ac yr hysbysir yn rheolaidd ynglŷn â'r hyn a gyflawnwyd.

## 5 Casgliad

**5.1** Roedd yr AGLI yng Nghymru yn cydnabod bod angen adolygu proses archwilio Goruchwylwyr Bydwragedd a'i symleiddio i sicrhau ei bod yn addas at ei diben, ac y byddai'n ychwanegu at y mecanweithiau sicrwydd sy'n bodoli o ran gwella diogelwch y cyhoedd. Fodd bynnag, roedd yr AGLI hefyd yn awyddus i osgoi dyblygu ymdrechion Goruchwylwyr Bydwragedd drwy lunio proses fwy di-dor i sicrhau y byddai canlyniadau ac argymhellion yn berthnasol ac yn rhoi sail i'r ffordd ymlaen mewn cyfnodau cynllunio canlynol. Mae hon yn broses ddynamig a bydd Swyddogion Bydwreigiaeth yr AGLI yn cydweithio â Goruchwylwyr Bydwragedd a Phenaethiaid Bydwreigiaeth i wneud mwy i fireinio'r archwiliad blynyddol er mwyn iddo ategu'r trefniadau llywodraethu mewnol yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r AGLI a'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

**5.2** Dylid cymeradwyo goruchwylwyr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys am eu gwaith hyd yn hyn ac am gyfraniad unigolion a'r tîm yn ei gyfanrwydd at wella diogelwch y cyhoedd. Mae'r AGLI yn ddiolchgar i'r holl staff a gyfrannodd at yr ymweliad archwilio ac at gasglu'r dystiolaeth, ac i'r Bwrdd Iechyd am eu croeso.

**5.3** Mae'r AGLI yng Nghymru yn edrych ymlaen at gydweithio â phob Goruchwyliwr Bydwragedd i barhau i sicrhau bod y swyddogaeth oruchwylio'n fwy amlwg ar bob lefel yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn edrych ymlaen yn fawr at gefnogi'r gwaith o ddiogelu goruchwyliaeth at y dyfodol gan ddangos i'r Bwrdd bod goruchwylio wirioneddol yn ychwanegu gwerth at wasanaethau bydwreigiaeth a bod swyddogaeth y goruchwyliwr yn y pen draw'n gwella diogelwch y cyhoedd drwy gefnogi gweithlu bydwreigiaeth diogel.

amddiffyn y cyhoedd trwy oruchwyliaeth statudol o fydwragedd — protecting the public through statutory supervision of midwives

agic Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru — hiw Healthcare Inspectorate Wales

**Atodiad A**

## AGLI Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

## Rhaglen yr Archwiliad Blynyddol o Safonau Goruchwylio Bydwragedd

**Dyddiad**: Dydd Gwener 1 Mawrth 2013
**Lleoliad**: Ysbyty Llandrindod, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

| Rhif | Amser | Gweithgaredd | |
|---|---|---|---|
| 1 | 09.00 | Cyrraedd a Choffi | |
| 2 | 09.15 | Cyflwyniad gan dîm adolygu'r AGLI<br><br>Cyflwyniad gan Swyddog Bydwreigiaeth yr AGLI i egluro diben archwilio goruchwyliaeth, a chyfeiriad goruchwyliaeth yn y dyfodol fel y'i pennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth<br><br>I'w gwahodd – Cyfarwyddwr Nyrsio<br>Pennaeth Bydwreigiaeth<br>Cyfarwyddwr Clinigol<br>Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt<br>Goruchwylwyr Bydwragedd Lleol<br>Rheolwr Risg Corfforaethol<br>Cymorth gweinyddol i'r goruchwylwyr bydwragedd | |
| 3 | 09.30 | Cyflwyniad 20 munud gan Oruchwylwyr Bydwragedd lleol i roi golwg gyffredinol gan gynnwys:<br><br>1. Crynodeb o adroddiad blynyddol lleol a chynllun gweithredol 2012-2013<br>2. Enghreifftiau o Arfer Da<br>3. Enghreifftiau o broffil goruchwylio yn lleol<br>4. Gwybodaeth allweddol ar gyfer adroddiad blynyddol lleol 2012-2013<br>5. Cyfeiriad y tîm Goruchwylwyr Bydwragedd lleol a chynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer 2013-2014 | |
| 4 | 10.30 | **Coffi** | |
| 5 | 10.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Rheolwr Risg (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod ag arweinwyr ym maes Cynnwys Cleifion a'r Cyhoedd a Chadeirydd y Pwyllgor Cyswllt Gwasanaethau Mamolaeth, ac adolygu enghreifftiau o Oruchwylwyr Bydwragedd yn ymgysylltu â defnyddwyr (Tîm 2) |
| 6 | 11.15 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â'r Cyfarwyddwr Clinigol (Tîm 1) | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â myfyrwyr bydwreigiaeth, addysgwyr ymarfer, mentoriaid bydwragedd (Tîm 2) |
| 7 | 11.45 | Tîm adolygu'r AGLI i gyfarfod â Goruchwylwyr Bydwragedd lleol i adolygu tystiolaeth o safonau archwilio V1, V3, V4, V11, V12, V13, V14, V16, a V17. | |
| 8 | 13:00 | **Cinio** | |

| | | |
|---|---|---|
| 9 | 13:30 | Tîm Adolygu'r AGLI i gadarnhau tystiolaeth yn yr amgylchedd clinigol |
| 10 | 15.00 | Tîm Adolygu'r AGLI i grynhoi eu canfyddiadau a drafftio gwybodaeth ar gyfer yr adroddiad |
| 11 | 16.00 - 16.15 | Adborth i'r Pennaeth Bydwreigiaeth ac eraill, crynodeb o'r diwrnod a'r camau nesaf |

# Atodiad B

**Rhestr o’r rhai a gymerodd ran ym mhroses yr Archwiliad Blynyddol**

Cyfarwyddwr Nyrsio – Carol Shilabeer

Pennaeth Bydwreigiaeth a Goruchwyliwr Bydwragedd – Cate Langley

Pennaeth Ansawdd a Diogelwch – Wendy Morgan

Cyfarwyddwr Clinigol – Helen Hayes

Goruchwyliwr Bydwragedd Cyswllt – Dawn Davies

Goruchwyliwr Bydwragedd – Louise Bishop

Goruchwyliwr Bydwragedd – Sara McAleese

Bydwragedd

Myfyrwyr bydwreigiaeth